

Dyddiad: Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2001

Amser: 2.00pm hyd 5.15pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf ar roi Cyfarwyddeb 2001/18 ar waith – rhyddhau organebau wedi'u haddasu'n enetig yn fwriadol i'r amgylchedd

Diben

1. Cyflwyno prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyntaf ar roi Cyfarwyddeb 2001/18 ar waith - rhyddhau organebau â'u geneteg wedi'i haddasu (GMOs) i'r amgylchedd ar waith - i'r Pwyllgor.
2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi crynodeb o'r ymatebion ar hyn o bryd. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori'n uniongyrchol ar sylwedd y rheoliadau drafft pan fyddant yn destun ymgynghori yn gynnar flwyddyn nesaf.

Crynodeb

3. Mae'r papur yn crynhoi prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad ac yn eu grwpio yn ôl y cwestiynau penodol y gofynnwyd i ymatebwyr fynd i'r afael â hwy. Nodir unrhyw themâu arwyddocaol a ymddangosodd.

Amseru

4. Mae'r mater yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn am mai hwn yw'r cyfle cyntaf a gafwyd i ddod â'r canlyniadau at sylw'r Pwyllgor. Mae hefyd yn rhoi cyfle arall i'r Aelodau roi eu safbwyntiau cyn llunio'r rheoliadau drafft. (Bydd ystyriaeth fanwl yn digwydd yn gynnar flwyddyn nesaf).

Cefndir

5. Ar hyn o bryd rheolir rhyddhau GMOs yn fwriadol i'r amgylchedd trwy Gyfarwyddeb 90/220/EEC. Mae hwn wedi'i ddiwygio gan Gyfarwyddeb 2001/18/EC sy'n cryfhau fframwaith yr UE i reoli rhyddhau GMOs yn fwriadol i'r amgylchedd.
6. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU, yn gyfrifol am y gweithredu, ac fel rhan gyntaf y broses cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghoriad a gafodd ei gynnal o 24 Awst tan 16 Tachwedd.

7. Roedd ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adlewyrchu safbwynt y Cynulliad ar gnydau â'u geneteg wedi'i haddasu. Roedd yn cynnwys datganiad clir o ddymuniad y Cynulliad i weithredu'r polisi mwyaf cyfyng ar gnydau GM y mae deddfwriaeth yr UE yn ei ganiatáu. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar feysydd lle gallai fod cyfle, naill ai yn y rheoliadau neu yn y canllaw, i adlewyrchu pryderon Cymru.

8. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y materion penodol canlynol:

- Sgôp asesu peryglon
- Sut dylid monitro ar ôl marchnata;
- A ddylid cael gwared ar yr holl farcwyr ymwrthedd i antibiotigau

yn raddol;

- Sut dylid olrhain a labelu;
- Sut dylid cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ryddhau GMOs;
- Sut gellir gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd;
- Beth gellir ei wneud i ragweld penderfyniadau o fewn fframwaith y Comisiwn yn well a'u gwneud yn fwy agored;
- A ddylai'r Cynulliad ddisodli'r drefniadaeth bresennol â'r drefniadaeth a ddisgrifir yn y Gyfarwyddeb;
- Sut dylid trin materion moesol a chymdeithasol-economaidd;
- Beth yw'r blaenoriaethau o ran rhoi arweiniad.

9. Cynigir yr amserlen ganlynol ar gyfer y broses o roi'r gyfarwyddeb ar waith:

- Ymgynhori ar y rheoliadau drafft gydag archwiliad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cael ei gynnal ar yr un pryd – Chwefror tan Ebrill 02
- Ei gyflwyno i'r Cynulliad – Mai/Mehefin 2002
- Y rheoliadau i'w trafod gan y Cynulliad cyn toriad yr haf yn 2002, felly os cânt eu pasio, gallant ddod i rym cyn dyddiad cau'r Comisiwn i'w gweithredu sef 17 Hydref 2002.

Ystyriaeth

10. Dosbarthwyd yr ymgynghoriad i dros 165 o unigolion a sefydliadau. Derbyniwyd naw ymateb.

Sgôp asesu peryglon

11. Fe wnaethom ofyn:

Beth yw'ch barn am hyd a lled y drefn ar gyfer asesu peryglon a ddisgrifir yn Atodiad II y Gyfarwyddeb?

A hoffech weld materion eraill yn cael eu cynnwys yn y canllaw?

12. Cynigiodd wyth allan o'r naw ymatebwr sylw ar y mater hwn. Roedd amryw o'r ymatebion yn fanwl iawn ac yn darparu syniadau penodol am faterion i'w cynnwys.

13. Y prif themâu yn yr ymatebion oedd:

- Dylid croesawu'r cynigion i asesu peryglon. (3 ymateb).
- Mae asesu peryglon yn effeithiol yn dibynnu ar wybodaeth da am ddangosyddion bioamrywiaeth ac mae angen mwy o ymchwil yn y maes hwn. (3 ymateb).
- Rhaid i'r asesiad o beyclon edrych ar yr arferion rheoli sy'n gysylltiedig â rhyddhau GMOs penodol, defnyddio plaleiddiaid er enghraifft, a dylai gynnwys eu heffaith ar yr amgylchedd ehangach. (3 ymateb).
- Dylai'r asesiad o'r peryglon ystyried effaith cronus rhyddhau mwy nag un GMO. (3 ymateb).
- Dylai'r asesiad o'r peryglon ystyried potensial effeithiau anuniongyrchol a/neu effeithiau tymor hir. (3 ymateb).
- Mae angen ymchwil bellach neu ganllaw ar effaith y GMOs i wneud asesu peryglon yn ystyrllon bydd yn anodd profi'i achos a'i effaith. (4 ymateb).
- Dylai'r asesiad o'r peryglon ystyried ffactorau megis yr effaith bosibl ar ffermwyr organig. (3 ymateb).

14. Roedd awgrymiadau ymarferol yn cynnwys cyfyngu nifer y GMOs sy'n cael eu rhyddhau mewn ardal ddearyddol, cyfyngu nifer y planhigion oedd yn debygol o groesfridio, hysbysu'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhadau i'r Amgylchedd (ACRE) am y planhigion hynny a sefydlu panel i gynnal arolwg o dystiolaeth yr asesiad o'r peryglon.

Monitro ar ôl marchnata

15. Fe wnaethom ofyn:

Beth yn eich barn chi yw'r prif ystyriaethau wrth lunio a chynnal cynllun monitro sy'n gyson â nodau ac egwyddorion Atodiad VII y Gyfarwyddeb?

16. Cynigiodd wyth allan o'r naw ymatebwr sylw ar y mater hwn.

17. Ychydig o themâu cryf a welwyd yn yr ymatebion, ond fe wnaeth nifer o bobl sôn am bwysigrwydd monitro effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau tymor hir ynghyd ag effeithiau uniongyrchol ac effeithiau amlwg. Fe wnaeth un ymateb rybuddio y byddai profi achos ac effaith yn anodd. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid sefydlu corff annibynnol i gynnal arolwg neu i fonitro ar ôl marchnata, yn hytrach na'i adael i ddeilydd y caniatâd.

18. Roedd sicrhau bod y cynllun monitro yn addas ar gyfer y GMO sy'n cael ei rhyddhau yn thema yn

nifer o'r ymatebion, er bod gwahaniaeth barn ynghylch beth roedd hynny yn ei olygu. Nododd un ymatebydd y gallai lefel monitro'r effeithiau amgylcheddol fod yn is lle na allai planhigyn groes-beillio â phlanhigion gwyllt eraill. Roedd ymatebwyr eraill yn canolbwyntio ar bethau ychwanegol i'w monitro wrth ddelio â mathau penodol o blanhigion neu addasiadau penodol.

19. Roedd nifer o sylwadau ar sut i ddefnyddio'r wybodaeth a geir trwy fonitro. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r data monitro gael ei rannu â'r holl Aelod-Wladwriaethau fel mater o drefn. Nododd un ymateb pe deuai tystiolaeth o berygl i iechyd pobl neu'r amgylchedd i'r amlwg trwy fonitro y dylai'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl ar unwaith. Nododd amryw o'r ymatebwyr bwysigrwydd mapio neu gofrestru cynhwysfawr o'r planhigion a blennir.

Marcwyr ymwrthedd i antibiotigau

20. Fe wnaethom ofyn:

A oes dadl wyddonol bod pob marciwr ymwrthedd i antibiotig yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu ar iechyd pobl?

21. Cynigiodd chwech allan o'r naw ymatebwr sylw ar y mater hwn ac roedd eu sylwadau yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau.

22. Pwysleisiodd dau ymatebwr nad oedd peryglon wedi'u profi o ganlyniad i ddefnyddio marcwyr ymwrthedd i antibiotigau. Hefyd nododd un o'r rhain fod technoleg marcwyr wedi datblygu a bod dulliau eraill eisoes yn cymryd eu lle.

23. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn falch o weld bod marcwyr ymwrthedd i antibiotigau yn cael eu disodli'n raddol, er i un awgrymu y dylid cael gwared arnynt ar unwaith yn hytrach nag yn raddol.

Olrhain a labelu

24. Fe wnaethom ofyn:

Sut dylid mynd ati i roi'r gofynion olrhain a labelu yn Erthygl 26 ac adrannau perthnasol Atodiad IV ar waith?

25. Cynigiodd saith allan o'r naw ymatebwr sylw ar y mater hwn. Cafwyd amrywiaeth o sylwadau yn ymdrin â nifer o wahanol agweddau ar y gofyn i olrhain a labelu.

26. Nododd un ymateb mai un o fuddion allweddol olrhain a labelu oedd eu bod wedi helpu ehangu dewis y defnyddiwr; canolbwyntiodd ymateb arall ar ei bwysigrwydd o ran purdeb hadau.

27. Gwnaed nifer o sylwadau ar sgôp olrhain a labelu. Roedd un ymateb yn nodi y dylai labelu fod mor gynhwysfawr â phosib, gan gynnwys er enghraifft, labelu gwrtaithe yr anifeiliaid a fwydir gyda phorthiant GM. Awgrymodd ymateb arall y dylai cynnyrch GM gael eu marcio â rhybudd yn nodi bod perygl.

28. Awgrymodd un ymateb y dylaid olrhain a labelu cnydau GM, cnydau di-GM a chnydau organig fel ei gilydd gan ddefnyddio'r un cysyniad o gadwraeth y disgrifiad.

29. Cafwyd dau sylw ar drothwyon. Roedd un yn nodi bod y dechnoleg wrth law i gyflwyno gofynion y Gyfarwydddeb a nododd y llall bod y trothwy 1% arfaethedig yn rhy uchel.

Ymgynghori â'r cyhoedd

30. Fe wnaethom ofyn:

Sut y dylid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cynigion ar gyfer ryddhau GMOs a sut y dylid ystyried eu barn?

31. Trafodwyd y mater hwn mewn pump o'r naw o ymatebion. Yn gyffredinol, roeddent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y cyhoedd yn cael rhybudd digonol er mwyn iddynt gyfranogi'n effeithiol.

32. Cafwyd nifer o awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gellid gwella'r broses o ymgynghori â'r cyhoedd. Roedd tri ymateb yn argymhell y dylid ymgynghori'n benodol ag awdurdodau lleol, gan gynnwys cynghorau cymuned, a buddiannau amaethu. Datblygodd un ymateb y syniad hwn ymhellach gan awgrymu y dylid mynnu bod ymgeiswyr yn ymddangos mewn cyfarfod lleol ac y dylai refferendwm lleol benderfynu a ddylid rhoi caniatâd Rhan B. Awgrymodd dau ymateb y dylid sefydlu corff annibynnol neu gyhoeddus i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.

33. Nododd nifer o ymatebion bod angen i'r cyfnod ymgynghori fod yn hwy, ac awgrymodd dau ohonynt fod y broses gwneud cais cynllunio yn fodel da.

34. Bu peth anghytuno ar werth y rhyngrwyd fel erfyn. Yn ôl dau ymatebydd, byddai'n gyfrwng da o ran sicrhau bod ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn materion lleol, ond ym marn un arall, nifer fach iawn o bobl sy'n ymweld â gwefannau'r llywodraeth ac nid ydynt yn cynrychioli sampl dda o aelodau'r cyhoedd. Cafwyd cytundeb barn yn gyffredinol bod papurau newydd a ffynonellau gwybodaeth lleol eraill yn ffordd dda o geisio barn.

35. Mae rhai o'r sylwadau, sy'n ymwneud â'r math o wybodaeth a roddir i'r cyhoedd, sy'n cael eu nodi yn yr adran isod, hefyd yn berthnasol i'r pwnc hwn.

Gwybodaeth i'r cyhoedd

36. Fe wnaethom ofyn:

Beth ddylid ei wneud i wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ryddhau a marchnata GMOs yn fwriadol?

37. Cafwyd sylwadau gan chwech o'r naw ymateb ar y mater hwn a bu peth anghytuno ynghylch y math o wybodaeth sydd ei hangen.

38. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn dweud y dylai unrhyw wybodaeth fod yn ddi-jargon ac yn hawdd i'w deall. Awgrymodd amryw y dylid paratoi crynodeb o rai o'r dogfennau mwy manwl megis asesu peryglon.

39. Roedd yn destun pryder i dri y gallai gormod o wybodaeth neu ormod o fanylion technegol beri dryswch. Nododd dau o'r ymatebion hyn hefyd y gallai fod cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellid ei darparu i'r cyhoedd oherwydd gallai gofyn am ormod fod yn rhwystr i fasnach.

40. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys sicrhau bod manylion lleoliad yr holl organebau a ryddheir gyda chaniatâd Rhan B a Rhan C ar gael a defnyddio gofynion gwybodaeth y system gynllunio fel model.

Y broses gwneud penderfyniadau

41. Fe wnaethom ofyn:

Beth dylid ei wneud i ragweld y broses gwneud penderfyniadau yn well, a'i gwneud yn fwy agored, a hynny o fewn y terfynau amser a bennwyd gan y Gyfarwyddeb?

42. Cafwyd sylwadau gan bedwar o'r naw a ymatebodd ar y pwnc hwn. Roedd un ymatebydd o'r farn fod y system bresennol eisoes yn un agored, ond y byddai ceisio ystyried materion cymdeithasol ac economaidd, nad ydynt wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar dystiolaeth, yn fwy anodd.

43. Roedd dau ymatebydd o blaid gosod terfynau ar oes caniatâd ac ym marn un arall, byddai rhoi gwell gwybodaeth i'r cyhoedd a gwella'r broses ymgynghori â'r cyhoedd yn help mawr i'w gwneud yn agored.

Gweithdrefnau gwahaniaethol

44. Fe wnaethom ofyn:

A ddylai'r Cynulliad wneud cynnig o dan ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb newydd ar weithdrefnau gwahaniaethol i ddisodli'r weithdrefn seml bresennol ar gyfer ceisiadau Rhan B yng Nghymru?

45. Ymdriniwyd â'r mater hwn gan chwech o'r naw o ymatebwyr a mynegwyd amryw o safbwyntiau.

46. Roedd dau ymateb o blaid symud o weithdrefnau seml at weithdrefnau gwahaniaethol, er bod un yn awyddus i nodi y byddai hyn yn amodol ar beidio â chwtogi ar y cyfnod a bennwyd ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Ym marn ymatebydd arall, roedd 15 o ddiwrnodau yn gyfnod rhy fyr i hysbysu pobl a dywedodd dau arall fod y gweithdrefnau seml yn iawn fel yr oeddent.

47. Dywedodd pumed ymatebydd na ddylid defnyddio gweithdrefnau seml os oedd hynny'n golygu cwtogi ar y broses lawn o asesu peryglon neu o ymgynghori â'r cyhoedd.

Materion moesegol a chymdeithasol- economaidd

48. Fe wnaethom ofyn:

Sut gall y Cynulliad ymdrin â'r materion moesegol a chymdeithasol-economaidd cyffredinol a godwyd yn y Gyfarwyddeb?

49. Crybwyllwyd hyn gan bump o'r naw ymatebydd a thynnwyd sylw at nifer o faterion.

50. Awgrymodd un ymateb y byddai materion cymdeithasol-economaidd yn rhan o gylch gwaith fforwm ymgynghori cyhoeddus, a fyddai'n bwydo sylwadau yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

51. Roedd dau ymatebydd yn ansicr ynghylch y modd y gellid cynnwys y materion yn y broses asesu peryglon, ac awgrymodd un fod angen gwneud ymchwil i sut y gellid ymgorffori materion cymdeithasol-economaidd yn y broses gwneud penderfyniadau. Roedd hyn yn ategu'r sylwadau a wnaed gan ddau ymatebydd arall: roedd y ddau o blaid ystyried materion cymdeithasol ac economaidd, ond roeddent o'r farn y dylid gofyn i Ewrop neu i gyrff ymgynghorol cenedlaethol megis Comisiwn Biodechnoleg Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd (AEBC) roi mwy o arweiniad.

Arweiniad

52. Fe wnaethom ofyn:

53. A oes gennych farn ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer rhoi arweiniad ar faterion a fyddai'n helpu pobl i ddeall y Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith yn effeithiol?

54. Ymatebodd dau yn benodol i'r cwestiwn hwn; er bod llawer o'r pwyntiau a godwyd o dan gwestiynau eraill hefyd yn berthnasol.

55. Dywedodd un ymatebydd y dylid rhoi'r pwyslais ar asesu peryglon, monitro egwyddorion a labelu.

56. Roedd yr ymatebydd arall o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i beryglon sy'n deillio o stacio trawsennynol. Canolbwyntiodd hefyd ar bwysigrwydd cael arweiniad ar ddulliau o asesu pa mor fawr oedd y

peryglon anuniongyrchol i'r amgylchedd, a diffinio'r hyn a olygir wrth niwed.

Sylwadau eraill am y Gyfarwyddeb ar bolisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar GMOs

57. Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol eraill. Cyfeiriodd sawl ymateb at faterion yn ymwneud â chyd-fodoli gydag amaethyddiaeth megis yr angen am bellteroedd gwahanu a threfn atebolrwydd i amddiffyn ffermwyr organig a ffermwyr confensiynol.

58. Roedd pedwar o'r ymatebwyr yn gryf o blaid polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar GMOs.

Cydymffurfiad

59. Cynhwysir y prif bwerau a fydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i weithredu'r Gyfarwyddeb yn Rhan VI o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a chawsant eu trosglwyddo i'r Cynulliad drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Gwnaeth y Cyngor Cyfrin orchymyn dynodi yn ystod eu cyfarfod ar 31 Hydref i drosglwyddo'r pwerau a oedd yn weddill, o dan Adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972.

60. Asesir y goblygiadau ariannol o roi'r Gyfarwyddeb ar waith fel rhan o arfarniad rheoliadol, a anfonir, ynghyd â'r rheoliadau drafft, ar gyfer ymgynghoriad ddechrau'r flwyddyn nesaf.

ARD i Weithredu

60. Nodi'r crynodeb o ymatebion a bod gofyn i'r Pwyllgor ystyried y rheoliadau drafft yn fanwl y flwyddyn nesaf.

Man cyswllt

Cangen Iechyd Planhigion a Biodechnoleg – Is-adran Cefn Gwlad